tŷ hafan
darparu gofal
bod yno

tŷ hafan. dau air syml a allai,
i chi, olygu popeth.

i deuluoedd

mae help llaw ar gael

Os ydych chi'n darllen hwn, efallai eich bod chi wedi cael gwybod bod cyflwr eich plentyn yn golygu y bydd yn byw bywyd byr, neu efallai fod ei driniaeth wedi ei hatal.

Fe allech fod yn teimlo'n ddryslyd, wedi cael ysgytwad a heb wybod ble i droi.

Dydych chi ddim ar eich pen eich hun. Mae help llaw ar gael, a'n henw yw Tŷ Hafan.

Trwy gydol eich taith o'r diagnosis cyntaf, rydym ni yma i'ch helpu gyda'n gofal a'n sgiliau arbenigol.

Rydym ni'n rhoi cysur, gofal a chymorth i'ch plentyn a fydd yn byw bywyd byr, ond gallwn hefyd helpu eich teulu i gyd trwy'r brwydrau dyddiol y gallech fod yn eu hwynebu. Byddwn yno i chi 24 awr y dydd, saith niwrnod yr wythnos.

Rydym wedi helpu dros 400 o deuluoedd er 1999, ac eisiau eich helpu chi hefyd.

Rydym yn cynnig ffynhonnell o nerth, cymorth a gofal seibiant byr sydd wir ei hangen. Mae Tŷ Hafan hefyd yn ymestyn allan o'r hosbis ac yn cyrraedd calon cartref y teulu. Mae hyn i gyd ar gael yn rhad ac am ddim i unrhyw un yng Nghymru sydd ein hangen.

Mae ein profiad o gyflyrau sy'n cyfyngu ar fywyd, yn ogystal â'n harbenigedd proffesiynol, yn golygu y gallwn ateb llawer o'r cwestiynau y gallai fod gennych chi, ac yn wir, eich plentyn.

Ar hyn o bryd, efallai eich bod chi ond eisiau canolbwyntio ar ymdopi â phob dydd fel y daw, ond pan fyddwch chi'n barod i gysylltu, byddwn yno i chi, bob cam o'r ffordd, a chyhyd ag y byddwch ein hangen.

"Mae pob plentyn yn dibynnu ar ei rieni, ond mae plentyn sâl ddwywaith mor ddibynnol arnynt. Mae pobl yn gofyn yn aml i mi sut y mae'n effeithio ar ein bywydau, ac rydw i'n meddwl: sut dydy e ddim yn effeithio ar ein bywydau? Ar y dechrau, roedden ni'n teimlo'n bryderus ynglŷn â Thŷ Hafan, ond nawr, rydyn ni'n teimlo ein bod yn cael cefnogaeth dda iawn fel rhieni, yn enwedig gan ein Hymarferydd Cymorth i Deuluoedd. Mae cyfarfod â rhieni eraill a sylweddoli nad ydyn ni'n mynd trwy hyn ar ein pennau ein hunain yn hynod o werthfawr."

David, tad Isabella
Yn y llun: Isabella a'i mam, Ruth

rhoi amser i deuluoedd fod yn deuluoedd

Mae gan Dŷ Hafan agwedd gadarnhaol at fywyd a marwolaeth. Rydym yn credu mewn llawenydd a chyfeillgarwch a gwneud y gorau o bob munud gwerthfawr. Rydym yn rhoi cyfle i'ch teulu deimlo fel teulu arferol a gwneud pethau cyffredin gyda'ch gilydd.

Byddwn yn rhoi cymorth i chi a'ch teulu trwy'r adegau caled, ble bynnag a pha bryd bynnag y byddwch ei angen. Rydym ni yma fel ysgwydd i grïo arni, i gynnig cwtsh pan fo'i angen, ac i roi cyfle i'ch teulu gael eu gwynt atynt ac amser i feddwl.

Gallwn roi'r cyfle i chi wneud cysylltiad â'ch plentyn mewn ffyrdd newydd, a chyfle o bosib i dreulio amser gyda'ch plant eraill ac i wneud pethau cyffredin fel teulu, gan greu atgofion i'w trysori.

stori jordan

Mae Jordan yn fachgen hyfryd, chwareus yn ei arddegau, sy'n llawn direidi ac yn chwerthin byth a hefyd.

Yn gynnar yn ei fywyd, cafodd Jordan ddiagnosis o syndrom Lennox-Gastaut, sef cyflwr sy'n golygu y bydd ei fywyd yn fyr, ei fod yn cael ffitiau ac y gallai gwympo'n ddirybudd..

Pan atgyfeiriwyd Cerys, mam Jordan, i Dŷ Hafan, roeddent yn byw mewn tŷ bychan nad oedd wedi ei addasu. Roedd hi'n frwydr gyson i wneud y cartref yn ddigon diogel iddo allu chwarae a symud o gwmpas yn ddidrafferth.

Gan weithio gyda gweithwyr proffesiynol eraill, ymgyrchodd ein tîm Cymorth i Deuluoedd am dros flwyddyn i ddod o hyd i dŷ mwy addas i fodloni anghenion y teulu. Erbyn hyn, mae Jordan a'i deulu yn byw mewn tŷ unllawr, mawr ac iddo dair ystafell wely, yn ogystal â gardd fawr, amgaeedig, sy'n bodloni ei anghenion.

Yn ogystal â'r ffaith fod y teulu yn cael help gan ein tîm Cymorth i Deuluoedd, mae Jordan yn edrych ymlaen at ymweliadau cyson gan ein Hymarferydd Chwarae Allgymorth a'i sach o deganau. Mae e hefyd yn mwynhau aros yn yr hosbis. Mae hyn yn rhoi'r cyfle i'w fam gael seibiant y mae wir ei angen arni o'r pwysau a all ddod yn sgil gofalu am blentyn anabl.

"Mae llygaid Jordan yn disgleirio, a gwên fawr ar ei wyneb, bryd bynnag y mae'n clywed bod ei Ymarferydd Chwarae Allgymorth ar ei ffordd. Mae ganddi ffordd mor hyfryd gydag e, ac mae e'n cael tro ar chwarae gyda'r holl deganau a gemau gorau!"

Cerys, mam Jordan
Yn y llun: Jordan

tŷ hafan a'ch teulu chi

Caiff unrhyw un atgyfeirio plentyn i ni. Gallai fod yn ffrind i'r teulu, gweithiwr proffesiynol neu aelod o'ch teulu, neu hyd yn oed chi eich hun.

Mae'r broses yn un gyflym a hawdd.

Rydym ni'n derbyn atgyfeiriadau yn ystod pob cam o gyflwr plentyn, gan gynnwys y camau cynnar iawn. Byddwn yn dod i'r adwy cyn gynted ag y bo'r angen.

Gan weithio gyda chi a gweithwyr proffesiynol sy'n ymwneud â gofal eich plentyn, byddwn yn asesu anghenion unigol eich plentyn ac yn creu pecyn gofal cynhwysfawr. Byddwn yn ystyried pob aelod o'r teulu, gyda'r prif nod o wella ansawdd bywyd i bawb.

Rydym yn gallu darparu safon ragorol o ofal trwy ddefnyddio gwasanaeth staff sydd â'r cymwysterau a'r hyfforddiant priodol. Mae'r rhain yn cynnwys nyrsys plant, gweithwyr cymdeithasol a gweithwyr chwarae. Mae Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru yn monitro ein gwaith dan reoliadau a osodir gan ddeddfwriaeth, trwy arolygiadau blynyddol a dirybudd. Mae'r adroddiadau hyn ar gael i'w darllen ar-lein: www.hiw.org.uk

Ni waeth sut y bydd eich plentyn yn cael ei atgyfeirio i Dŷ Hafan, gadewch i ni ddangos i chi yn union beth fydd yn digwydd...

Cysylltwch â Thŷ Hafan

Bydd ein Nyrs Gofal Lliniarol Arbenigol yn dod i'ch gweld chi yn eich cartref eich hun, neu ble bynnag sydd orau gennych chi

Bydd Tŷ Hafan yn cynnal asesiad i weld a yw eich plentyn yn gymwys

Bydd ein panel o arbenigwyr yn gwneud penderfyniad ynglŷn â derbyn eich plentyn

Ar ôl penderfynu derbyn eich plentyn, datblygir pecyn gofal wedi ei deilwra i fodloni anghenion eich teulu

cysylltwch â ni

Rydym yma i chi bryd bynnag yr ydych chi'n barod i gysylltu â ni.

Mae ein tîm cyfeillgar a charedig bob amser yn falch o glywed gennych. Byddant yn gallu ateb eich cwestiynau a rhoi'r holl wybodaeth angenrheidiol i chi.

Efallai y byddwch chi eisiau cael sgwrs am sut yr ydych yn teimlo, a chael cymorth i wneud penderfyniadau anodd. Mae gennym glust i wrando, a gallwn gynnig help llaw i chi wedi ei seilio ar flynyddoedd lawer o brofiad.

Mae bywyd teuluol yn llawn o bethau da a drwg, dagrau a chwerthin. Ni allwn gael gwared ar y pethau drwg, ond gallwn wneud y daith trwyddynt yn rhywfaint haws.

Ffoniwch ni ar

029 2053 2200

Neu gofynnwch i'ch gweithiwr cyswllt proffesiynol ein ffonio ni ar eich rhan.

Edrychwch ar ein gwefan hefyd – mae'n dweud mwy wrthych chi am sut y gallwn ni helpu.

www.tyhafan.org

www.tyhafan.org

Tŷ Hafan - yr hosbis deuluol i fywydau ifanc. Heol Hayes, Sili, Bro Morgannwg CF64 5XX
Ffôn: 029 2053 2200 Ffacs: 029 2053 2202 Elusen Gofrestredig Rhif: 1047912. Mae Tŷ Hafan® yn nod masnach cofrestredig. (ion11)

"Rydym ni'n deulu unwaith eto, yn gwneud pethau cyffredin fel teuluoedd eraill, pethau syml bywyd."